



Bwletin GwE

CYDWEITHIO · DYSGU · LLWYDDO

🔔 Rhannwch ein Bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n rhestr bostio. 🔔

CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

DIGWYDDIAD	LLEOLIAD	DYDDIAD	CYFRWNG	COFRESTRU
Gweithdy Gwerthuso a CDY Ynys Môn	Ysgol Corn Hir, Llangefni	20/06/2023	Cymraeg	COFRESTRU
Cyfarfod Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Galeri, Caernarfon	26/06/2023	Cymraeg	COFRESTRU
Cyfarfod Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Venue Cymru, Llandudno	27/06/2023	Dwyieithog	COFRESTRU
Sesiwn Dysgu yn yr Awyr Agored i Athrawon sy'n Addysgu Disgyblion 3-8	St Asaph VP Infant School, Llanelwy	27/06/2023	English	COFRESTRU
Sesiwn Dysgu yn yr Awyr Agored i Athrawon sy'n Addysgu Disgyblion 3-8	St Asaph VP Infant School, Llanelwy	27/06/2023	English	COFRESTRU
Cyfarfod Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Gwesty'r Beaufort, Yr Wyddgrug	28/06/2023	Dwyieithog	COFRESTRU
Fforwm Arweinwyr Llythrennedd	Venue Cymru Llandudno	29/06/2023	English	COFRESTRU

RHAGLENNI CENEDLAETHOL

Hyfforddiant Statws Ymarferydd Achrededig Dyslecsia

CYFLE GWYCH I GYMORTHYDDION ADDYSGU

Hyfforddiant ar gyfer Statws Ymarferydd Achrededig Dyslecsia, mewn cydweithrediad â Chanolfan Dyslecsia Miles, Prifysgol Bangor. Cynhelir yr hyfforddiant dros Dymor yr Hydref 2023 a Thymor y Gwanwyn 2024.

Am fwy o fanylion a ffurflen gais, [cliciwch yma](#) neu cysylltwch â Wendy Williams drwy ebost

[\[WendyWilliams@gwegogledd.cymru\]](mailto:WendyWilliams@gwegogledd.cymru) neu ffoniwch 07485 207166.



Rhaglen Datblygu Darpar CALU

Mae Cylch 7 y Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn ym mis Medi 2023.

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw **19/06/2023**. [Cliciwch yma](#) am wybodaeth am y Rhaglen a sut i ymgeisio.



Bryn Eirias, Ffordd Abergele,
Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



Canolfan Cefnogaeth GwE



@GwEGogleddCymru



post@gwegogledd.cymru



www.gwegogledd.cymru



g6.gwegogledd.cymru



GwE Gogledd Cymru

DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

Datblygiad Proffesiynol i Athrawon Mathemateg Uwchradd

[Cliciwch yma am y manylion llawn](#). I wneud cais, cwblhewch y [ffurflen hon](#) erbyn **30/06/2023**. Cewch wybod cyn diwedd y tymor os yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â naill ai ffionemlynmealor@gwegogledd.cymru neu sianelizabetchaldwell@gwegogledd.cymru

Gwella Sgiliau Sylfaenol Disgyblion mewn Rhifedd gyda SAFMEDS

Rydym yn recriwtio athrawon (neu gymorthyddiondysgu) yng Ngogledd Cymru i weithio gyda grŵp o 10 dysgwyr ym Mlwyddyn 3 neu 4. I ddechrau, bydd y sesiynau SAFMEDS yn edrych ar feithrin sgiliau adio, yn ystod tymor yr Hydref 2023 a thymor y Gwanwyn 2024.

Er mwyn cael cymryd rhan yn y prosiect hwn, rhaid i'ch ysgol:

- Fod yn ysgol gynradd brif lif yn rhanbarth GwE (gall eich ysgol fod yn lleoliad Cymraeg, Saesneg neu ddwyieithog).
- Adnabod dysgwyr targed ym Mlwyddyn 3 neu 4 a fyddai'n elwa o'r strategaeth SAFMEDS. Bydd angen i'r dysgwyr hyn gael dealltwriaeth sylfaenol o adio un digid (hyd yn oed os nad ydynt yn gwneud hyn yn rhwydd eto). Rhaid i ddysgwyr hefyd allu troi cardiau fflach yn annibynnol.
- Adnabod athro neu gymhorthydd dysgu all fynd i'r sesiwn hyfforddiant ym mis Hydref 2023. Yr unigolyn hwn a ddylai fod yn cefnogi'r sesiynau SAFMEDS yn yr ysgol hefyd.

[Manylion llawn ar gael yma](#). I fynegi diddordeb, dilynwch y [ddolen hon](#).

Lansio'r Rhwydwaith Digidol Uwchradd

 05/07/2023  10:00-11:00  Cyfrwng Cymraeg  Ar-lein  [YMUNO](#)

Cynhelir y sesiwn gyntaf ar-lein a bydd yn cynnwys cyflwyniad byr i waith y rhwydwaith yn ystod 2023-2024 a'r gynhaliath fydd ar gael i chi fel ysgolion. Bydd cyfle hefyd yn y sesiwn i chi gael dylanwadu a llywio sut orau i ddarparu'r arweiniad a'r gefnogaeth ar eich cyfer. [Rhagor o fanylion yma](#).

NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

Fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd

ARWEINIAD AR Y CRYNODEBAU SYDD ANGEN I YSGOLION EU PARATOI

Mae'r 'Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd' yn ganllaw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella ysgolion a fydd yn statudol ym mis Medi 2024.

Mae'r canllaw yn nodi disgwyliad i bob ysgol gyhoeddi crynodeb i rieni, sy'n rhannu gwybodaeth am gasgliadau hunanwerthuso'r ysgol, cynnydd yn erbyn blaenoriaethau blaenorol, blaenoriaethau gwella lefel uchel a'r cymorth allanol y mae ysgol yn ei gael i gyflawni ei blaenoriaethau.

Er mwyn paratoi at y gofyn hwn, mae criw o ysgolion, mewn cydweithrediad â GwE, wedi cyd-greu dogfennau enghreifftiol fel cymorth i ysgolion y Rhanbarth. Byddwn yn rhannu ffrwyth llafur y grŵp hwn mewn cyfarfodydd Teams rithwir ar yr amseroedd a ganlyn:

 19/06/2023	 15:45-16:30	 Cymraeg	 YMUNO
 21/06/2023	 15:45-16:30	 English	 YMUNO
 27/06/2023	 15:45-16:30	 Cymraeg	 YMUNO
 29/06/2023	 15:45-16:30	 English	 YMUNO

Bydd y sesiynau yn cael eu recordio a bydd cyfle i drafod ymhellach â'ch Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt wrth i chi ystyried blaenoriaethau lefel uchel eich Cynllun Datblygu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Diwrnod Dathlu'r Daith Ddiwygio - Marchnad Cwricwlwm i Gymru



22/06/2023



Venue Cymru, Llandudno



[RHAGLEN](#)



[GWEITHDAI](#)

Byddwn yn cynnal 'Marchnad Cwricwlwm i Gymru' i arweinwyr ysgolion y rhanbarth ar **22/06/2023 yn Venue Cymru, Llandudno**. Bydd yn gyfle i rannu datblygiadau Cwricwlwm i Gymru a dathlu llwyddiannau, gyda'r nod o rannu arferion sy'n dod i'r amlwg hyd yma ar draws MDPH.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn bod ar y gofrestr wrth gefn, anfonwch e-bost at:

cwricwlwmigymru@gwegogledd.cymru



Rhannu Arfer Llwyddiannus:

Dyddiau agored – Y Gymraeg yn ein hysgol ni

DEWCH I WYBOD MWY AM SUT I DDATBLYGU'R GYMRAEG O FEWN EICH CWRICWLWM

AR GYFER YSGOLION CYNRADD

Cyfes o ddigwyddiadau yn arddangos sut y mae gwahanol ysgolion wedi datblygu'r Gymraeg yn eu cwricwlwm. Mae pob sefydliad yn cynnig mewnwelediad i'w gweledigaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg ac yn enghreifftio'r hyn sydd ar waith mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Cofrestrwch eich diddordeb ar gyfer ymweld â'r ysgol sy'n gweddu orau i'ch categori ieithyddol chi yn ogystal â'ch taith chi wrth ddatblygu'r Gymraeg (mae llefydd yn brin).

BORE AGORED

DATBLYGU'R GYMRAEG MEWN YSGOL CYFRWNG SAESNEG

Cynhelir yn Ysgol Y Llan, Chwittfordd, Treffynnon (CH8 9AN)

Pryd: 07/07/2023 – 9:15-12:00

Cyfle i weld gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg ar waith a'i heffaith ar ddysgwyr, yn cynnwys sgwrs gan yr Uwch Dîm Arwain, trafod gyda dysgwyr a staff addysgu a gweld dosbarthiadau a gwasanaeth.

Cynulleidfa: Aelodau o uwch dîm arwain ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg (mae llefydd yn brin)

Er mwyn cofrestru eich diddordeb i fynychu cwblhewch y ffurflen [hon](#)

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Rhian Roberts:

rhian.roberts@flintshire.gov.uk

Ni ddarperir cinio.



BORE AGORED

DATBLYGU'R GYMRAEG MEWN YSGOL CYFRWNG SAESNEG

Cynhelir yn Ysgol Gwynedd, Y Fflint (CH6 5DL)

Pryd: 29/06/2023 – 9:15-12:00

Cyfle i weld sut mae'r ysgol wedi cynllunio'n strategol ac uwchsgilio staff er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Bydd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o effaith y Cynllun Sabothol Cenedlaethol ar hyder staff i addysgu a gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg ac effaith hynny ar ddysgwyr.

Cynulleidfa: Aelodau o uwch dîm arwain ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg (mae llefydd yn brin)

Er mwyn cofrestru eich diddordeb i fynychu cwblhewch y ffurflen [hon](#)

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Rhian Roberts

rhian.roberts@flintshire.gov.uk

Ni ddarperir cinio.



Asesiadau Personol – Negeseuon Rhanbarthol

[Cliciwch yma](#) am yr wybodaeth a'r astudiaethau achos diweddaraf

RADY – Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Difreintiedig

Mae Rhaglen RADY yn ffordd o gau'r bylchau sydd yn targedu 'system nerfol ganolog' ysgol yn uniongyrchol - ei systemau gosod targedau, tracio a monitro. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o strategaethau eraill i gau'r bwlch, mae RADY wedi'i bwriadu ar gyfer uwch reolwyr ac athrawon mewn ysgolion. Datblygwyd RADY yn ardal Wirral yn 2013 i ymateb yn uniongyrchol i ddiffyg nas gwelwyd cyn hynny mewn systemau ysgolion, diffyg all gynnal y bwlch a llesteirio ymdrechion i'w leihau oni bai y caiff sylw. Ewch i challengededucation.co.uk am fwy o wybodaeth.

Mae GwE yn gofyn i gystyrau o ysgolion fynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn prosiect peilot RADY. Byddai gofyn i bob ysgol yn y clwstwr ymrwymo'n hirdymor i'r prosiect. Bydd y peilot ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn rhad ac am ddim i'r ysgolion a fydd yn cymryd rhan. Am fwy o wybodaeth ac i fynegi diddordeb, anfonwch e-bost at catherinemcnamara@gwegogledd.cymru.

Dyfodol Byd-eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol

Canolfan Cefnogaeth GwE: Ieithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau - <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe>

Newyddlenni

Cymraeg: [Cynradd](#) | [Uwchradd](#) English: [Primary](#) | [Secondary](#)

DYSGU PROFFESIYNOL I YMARFERWYR YSGOLION CYNRADD

Cyrsiau ar-lein i athrawon Ysgolion Cynradd ar uwchsgilio Ieithoedd Rhyngwladol – Ffrangeg a Sbaeneg



20/06/2023



15:45-16:45

Cyrsiau Uwchsgilio iaith Ffrangeg a Sbaeneg i athrawon sydd â dim neu fawr ddim gwybodaeth am yr iaith y mae rhaid iddynt ei haddysgu - Sesiwn gwybodaeth: Dyfodol Byd-eang GwE a Power Language.

Cyfle i ymarferwyr gael golwg ar y cyrsiau uwchsgilio iaith Ffrangeg a Sbaeneg sydd yn digwydd ar-lein a dod yn gyfarwydd â nhw. Bydd y cyrsiau ar gael i holl ysgolion GwE o fis Gorffennaf 2023 tan 2024. Mae'r rhain i athrawon sydd â dim neu fawr ddim gwybodaeth am yr iaith y mae rhaid iddynt ei haddysgu. Bydd Richard Tallaron (Power Language) yn tywys athrawon drwy strwythur y cyrsiau, yn trafod y ffyrdd gwahanol o gael mynediad at y cyrsiau a'r adnoddau a sut i roi'r hyn rydych chi'n ei ddysgu ar waith gyda'ch dosbarth. Bydd hyn hefyd yn gyfle i drafod syniadau ar ddatblygu cysylltiadau dramor a set o weithgareddau gyda'ch ysgol(ion) partner.

Cofrestrwch [yma](#) erbyn **19.06.2023**.

British Council Cymru - Arolwg Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2023 - Ieithoedd Rhyngwladol

Wrth gwblhau'r arolwg, bydd gofyn i chi nodi Rhif Cyfeirnod eich Sefydliad. Mae angen y rhif hwn arnom i ddilysu eich ymateb, ac i gadw'r data'n ddiennw a chyfrinachol a sicrhau cyfrinachedd.

Ond ni ddylai'r arolwg gymryd mwy nag 15 munud i'w gwblhau, erbyn dydd Mawrth 20 Mehefin 2023. Dilynwch y dolenni isod i weld yr arolwg: [Cynradd](#) | [Cynradd \[Cyfrwng Cymraeg\]](#) | [Ysgolion Uwchradd Gwladol](#) | [Ysgolion Uwchradd Gwladol \[Cyfrwng Cymraeg\]](#)

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ddechrau mis Hydref 2023.

NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU



Cyflawni Potensial – Her i Bawb



Mae tîm MATH Consortia Addysg Cymru wedi newid ei enw i **Cyflawni Potensial**

Pam? - Mae gwaith y tîm wedi esblygu i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth genedlaethol 'her i bob dysgwr' a sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi'n briodol ac yn deg i gyflawni ei botensial llawn. Mae gan bob dysgwr hawl i gael ei gefnogi yn ei gynnydd a'i ddyheadau waeth beth fo'i fan cychwyn.

Byddwn yn cefnogi ysgolion gydag ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol a mynediad at adnoddau i alluogi ysgolion i ddatblygu gweledigaeth eglur o ran cefnogaeth i ddysgwyr elwa ar gyfleoedd i gyflawni eu potensial yn llawn wrth iddynt fynd ati i ddysgu. Bydd agweddau ar gymorth lles yn ystyriaeth allweddol ochr yn ochr â blaenoriaethau cenedlaethol fel lleihau effaith tlodi ac anfantais ar gynnydd a chyrhaeddiad, yn unol â gwireddu Cwricwlwm i Gymru a'r Egwyddorion Cynnydd. [Manylion llawn ar gael yma](#).

Er mwyn i'r tîm Cyflawni Potensial allu teilwra'r cymorth sydd ei angen gyda themâu'r ymarferwyr cefnogi uchod, a fyddoch cystal â chwblhau'r [holiadur yma](#) i amlinellu eich gofynion dysgu/cymorth proffesiynol.

Am fwy o wybodaeth, cystylltwch â: **Mair Herbert** - mairherbert@gwegogledd.cymru neu **Paul Davies** - pauldavies@gwegogledd.cymru



Rhaglen Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl E-Ddysgu MIND

Mae'r Consortia wedi cydweithio â Mind Cymru i roi mynediad i weithwyr proffesiynol sydd yn gweithio ym maes addysg ledled Cymru at becyn e-ddysgu ymwybyddiaeth iechyd meddwl rhyngweithiol 45 munud am ddim. Er mwyn cael mynediad at y rhaglen, cwblhewch y [ffurflen hon](#).

NEWYDDION LLYWODRAETH CYMRU

Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol Haf 2023 – Dylunio'r Cwricwlwm ac Asesu



Gan adeiladu ar sgyrsiau Cynllunio'r Cwricwlwm 2021 i 2022, bydd y Sgwrs Genedlaethol hon yn ystod haf 2023 yn canolbwyntio ar helpu ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion a lleoliadau i ystyried eu harweinyddiaeth yng nghyd-destun prosesau cynllunio cwricwlwm ac asesu ers mis Medi 2022.

Bydd y Sgwrs Genedlaethol hon yn rhoi cyfle i chi:

- sgwrsio ag ymarferwyr eraill o bob cwr o Gymru am y math o sgyrsiau cwricwlwm sy'n cefnogi cynllunio cwricwlwm ac asesu effeithiol
- gwerthuso sut y mae eich ysgolion a'ch lleoliadau yn datblygu'r diwylliant a'r amgylchedd sy'n arwain at gynllunio cwricwlwm ac asesu effeithiol
- cyfeirio at adnoddau a all gefnogi sgyrsiau cwricwlwm blaenllaw yn eich ysgolion a'ch lleoliadau sy'n galluogi cynnydd dysgwyr

Drwy'r sgwrs cewch gyfle hefyd i rannu eich profiadau a dysgu gan eraill fel rhan o'r broses ailadroddol hon. Dyma ddolen at [ddeunyddiau ategol](#) a [rhestr chwarae](#) flaenorol a fydd yn ddefnyddiol i chi wrth gymryd rhan yn y sgwrs genedlaethol ac wrth gynnal sgyrsiau o fewn eich lleoliad eich hun.

Cofrestrwch gan ddefnyddio'r [ddolen hon](#).

GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

Plant yng Nghymru – Mynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Addysg



CANLLAW I LYWODRAETHWYR

Mae ein canllawiau llwyddiannus 'Pris Tlodi Disgyblion' a gynlluniwyd ar gyfer ysgolion ac sy'n mynd i'r afael â phum maes allweddol (Deall tlodi; Gwisg ysgol a dillad; Bwyd a newyn; Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol; Perthynas Cartref-Ysgol) wedi'u datblygu i fod yn ganllaw i Lywodraethwyr Ysgol newydd.

Wedi'i lunio'n benodol ar gyfer Llywodraethwyr mae'r canllaw hwn yn rhoi cipolwg ar bob un o bum maes allweddol y Canllawiau o safbwynt llywodraethwyr, a hefyd yn edrych ar bolisiau'r ysgol, cyllid Llywodraeth Cymru a phrosiectau i fynd i'r afael â thlodi mewn ysgolion.

Ymunwch â Plant yng Nghymru mewn **gweminar** i godi ymwybyddiaeth a chael **gywbodaeth** am y **Canllaw i Lywodraethwyr newydd ar Fynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Addysg**, a fydd yn cyflwyno'r canllaw newydd ac yn cynnig cymorth a chyngor ymarferol ar gael gwared ar rwystrau ariannol i gyfranogiad disgyblion. Fel llywodraethwr, gallwch gefnogi eich ysgol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar y diwrnod ysgol i bob dysgwr.

Cewch fwy o wybodaeth yma: [Governors' Guides / Canllaw i Lywodraethwyr | Children in Wales](#) (childreninwalesmembership.org.uk)

Gweithdai Lles ar gyfer Staff Ysgolion – Education Support



Mae Education Support yn parhau i ddarparu sesiynau llesiant a datblygiad wedi'u hariannu ar gyfer staff ysgol ledled Cymru, heb unrhyw gost i staff. Mae llefydd yn brin, felly cofrestrwch nawr trwy ddilyn y dolenni isod:

ARWEINWYR YSGOL A RHEOLWYR LLINELL:

Rheoli pobl a phrosesau Adnoddau Dynol gydag iechyd meddwl a llesiant mewn golwg

28/06/2023

Dosbarth meistr rhithwir i arweinwyr ysgolion a rheolwyr llinell yng Nghymru ar sut i reoli pobl a phrosesau AD gyda llesiant meddyliol mewn golwg.



<https://bit.ly/3WpNETy>



CYNORTHWYWR ADDYSGU A CHYMORTHYDDION DYSGU:

Rhoi eich hun yn gyntaf – dod yn ôl i le tawel

19/06/2023

Gweithdy rhithwir i gynorthwywyr addysgu a chymorthyddion dysgu yng Nghymru sy'n cynnig strategaethau ymarferol i gynnal meddwl iach.



<https://bit.ly/45CJqW>

GWYBODAETH BELLACH

Ewch i [wefan Education Support](#) i gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau hyn a ariennir ar gyfer staff ysgol yng Nghymru. Ac os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, mae croeso i chi gysylltu ar: staffwellbeingsservice@edsupport.org.uk

Her Buddsoddi – Ysgol Busnes Bangor



07/07/2023



Dymuna Ysgol Busnes Bangor wahodd myfyrwyr Blwyddyn 11 a 12 i gystadlu yn eu her buddsoddi a fydd yn profi eu gallu i fuddsoddi trwy fasnachu mewn efelychiad rhithwir o'r farchnad stoc. Gall pob ysgol ddod ag uchafswm o 10 disgybl [gan ffurfio pum tîm]. [Rhagor o fanylion i'w cael yma.](#)

Cynhadledd E-sgol 2023



03/07/2023



14:30-16:30



Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, Maesteg, CF34 9RW / Rhithwir

Bydd y gynhadledd e-sgol yn rhoi cyfle i chi glywed am y gwahanol fentrau y mae e-sgol yn gweithio arnynt, gan gynnwys Ymlaen Gyda'r Dysgu, Carlam Cymru a'n Cymuned Dysgu Proffesiynol.

Cynhelir y gynhadledd yn [Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd](#), ond bydd y cyflwyniadau'n cael eu darlledu'n fyw er mwyn i fynychwyr o bob rhan o Gymru allu dilyn. Ar ôl y cyflwyniadau, bydd y mynychwyr yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn cael cyfle i ymgysylltu ag aelodau o dîm e-sgol ac ymweld ag amrywiol stondinau marchnad a fydd yn dangos beth yw e-sgol a sut y mae'n gweithio.

Ewch i wefan e-sgol i ganfod mwy: <https://e-sgol.cymru/cy/cynhadledd-e-sgol-2023/>

Estyn: Arolygu ar gyfer y Dyfodol (2024-2030)



MAE ESTYN YN ADOLYGU SUT BYDD YN AROLYGU ADDYSG A HYFFORDDIANT O 2024 YMLAEN

Mae'n adeiladu ar y newidiadau a wnaed eisoes – sef dileu graddau crynodol ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd a arolygir a chanolbwyntio mwy ar gryfderau a meysydd i'w datblygu – a bydd yn ymgynghori'n ehangach i glywed syniadau pawb. Dysgwch fwy am ddull Estyn: [Arolygu ar gyfer y dyfodol \(2024–2030\) | Estyn \(llyw.cymru\)](#)

Gwersi Byw NFU Cymru ac NFU Education

Cliciwch ar y llun i gofrestru.

Ewch ôf
delfen hon
i'ch ysgol
gynradd leol



**Dydd Mercher 21 Mehefin 2023
11yb (Saesneg) - 2yh (Cymraeg)**

Mae NFU Cymru ac NFU Education wrth eu bodd i ddod â buarth y fferm i'ch ysgol gynradd chi, gyda gwersi byw rhyngweithiol i ddatlu Wythnos Ffermio Cymreig. Ymunwch â ni i weld oen yn cael ei eni, gwylwch ddafad yn cael ei chneifio, helpwch Erin y ffermwr i gasglu ei phraidd a gofynnwch eich cwestiynau iddi hi.



Cofrestrwch am ddim:
livestream.co.uk/the-lamb-diaries

Sgwilwch
y cod QR

